Cofnodion

Pwyllgor Craffu ar Berfformiad – Pobl

Dyddiad: Dydd Mawrth, 8 Medi 2020

Amser: 10.00 am

Bresennol: Cynghorwyr J Watkins (Cadeirydd), S Marshall, T Watkins, C Townsend, J Cleverly and W Routley

Gareth Price (Pennaeth y Gyfraith a Rheoliadau)

Ymddiheuriadau: Cynghorwyr H Thomas and J Richards

---

1 **Ymddiheuriadau**

Dim.

2 **Datganiadau o ddiddordeb**

Dim.

3 **Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Ionawr 2020**

Derbyniwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 14 Ionawr 2020 yn gofnod gwir a chywir.

Holodd aelod am y paragraff olaf ar dudalen 7, a yw'r polisi Tegwch a Chydraddoldeb wedi'i gyhoeddi? Dywedodd Pennaeth y Gyfraith a Rheoliadau wrth y pwyllgor y byddai'r camau gweithredu o'r cyfarfod hwn wedi'u cwblhau cyn y Gyllideb, felly byddent wedi'u cyhoeddi.

4 **Rhaglen Blaen-waith Flynyddol 2020-21**

Yn Bresennol
– Gareth Price (Pennaeth y Gyfraith a Rheoliadau)

Cyflwynwyd yr eitem i'r pwyllgor gan y Cadeirydd. Awgrymwyd y dylai'r pwyllgor edrych ar adroddiad Nodau Adfer Strategol Covid y cytunwyd arno yng nghyfarfod y Cabinet ar 24 Mehefin 2020. Byddai'r Aelodau'n gallu craffu ar ymateb y Cyngor yn y meysydd sy'n ymwneud â'r pwyllgor.

Gofynnodd yr Aelodau y canlynol:

- Pryd bydd y pwyllgor yn cael y cynlluniau gwasanaeth chwe-misol nesaf.

  Dywedwyd wrth yr Aelodau y byddant yn dod i law erbyn mis Tachwedd 2020 fan bellaf. Maent yn mynd trwy lawer o ddiweddaru ar hyn o bryd. Y gobaith yw y bydd un neu ddau o'r cynlluniau yn barod ym mis Hydref.

- Mynegodd yr Aelodau bryder y cynghorwyd yr Aelodau y bydd yr agenda ar gyfer cyfarfod y Cabinet ar 16 Medi 2020 yn cael ei chyhoeddi yfory. Bydd yn cynnwys yr adroddiad am Covid a fydd yn rhoi mwy o fanylion am yr hyn y mae gwasanaethau yn ei wneud. Atgoffwyd yr Aelodau eu bod yn gallu gweld darllediad byw o'r cyfarfod.

- Dywedodd yr Aelodau yr hoffent weld sut mae'r lleoliadau ar gyfer plant na allant fynychu ysgolion prif ffrwd, a phlant sy'n derbyn gofal sydd wedi'u lleoli y tu allan i'r ardal, wedi ymdopi yn ystod y pandemig.

- Dywedodd yr Aelodau nad oes dyddiadau yn yr adroddiad ar gyfer pryd y bwriedir cyflawni'r Nodau Adfer Strategol Covid. A fydd dyddiadau'n cael eu cyhoeddi neu a yw'n ddogfen am yr hyn y mae'r Cyngor yn gobeithio ei gyflawni?

  Dywedodd Pennaeth y Gyfraith a Rheoleiddio wrth y pwyllgor fod y ddogfen yn ymwneud â nodau strategol lefel uchel sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Corfforaethol a'r amcanion Llesiant, felly yn erbyn yr amcanion penodol hyn nid oes dyddiad penodol. Fodd bynnag, os bydd y pwyllgor yn ymchwilio i gynlluniau gwasanaeth, bydd camau gweithredu ac amcanion ar gyfer pob gwasanaeth ym mhob un o'r nodau strategol hyn.
  O fewn y cynlluniau gwasanaeth hynny, bydd gwasanaeth yn pennu dyddiad penodol a dyddiad cau ar gyfer cwblhau'r camau hynny. Bydd yr holl fanylion yn ymddangos yn y cynlluniau gwasanaeth a'r cynlluniau perfformiad ar gyfer eleni.

- Mynegwyd pryder nad oedd preswylwyr yn gallu cael gafael ar gymorth a gwybodaeth gan fod yr Orsaf Wybodaeth a desg y dderbynfa yn y Ganolfan Ddinesig ar gau yn ystod y pandemig, ac roedd amserau aros hir i alwadau gael eu hateb. Pa gynlluniau sydd ar waith i ailagor y sianeli hyn?

  Dywedwyd wrth yr Aelodau y bydd y manylion hyn yn cael eu rhoi pan fydd gwasanaethau eraill yn adrodd yn ôl am ba gamau y maent yn eu cymryd o ran y Normal Newydd a Ffyrdd Newydd o Weithio, a gaiff eu cynnwys yn y nodau strategol a fydd yn mynd gerbron y Cabinet. Bydd adroddiad manwl am yr hyn mae Gwasanaethau Cwsmeriaid yn bwriadu ei wneud a beth yw'r bwriad o ran ailagor adeiladau cyhoeddus a'r Orsaf Wybodaeth, gan gydnabod na all pethau byth fynd yn ôl yn llwyr i'r ffordd yr oeddent. Bydd cyfle i Graffu gael mewnbwn a herio sail y cynnig hwnnw.

- Dros yr ychydig fisoedd nesaf, a fydd y pwyllgor yn edrych ar bob un o'r nodau strategol mewn cyfarfodydd ar wahân neu a fyddant yn craffu ar yr holl feysydd strategol mewn un cyfarfod ac yn gweld sut maent yn datblygu drwodd?

  Dywedwyd wrth yr Aelodau na fydd y pwyllgor yn trafod pob un o'r nodau strategol, ond yn ystyried yr amcanion amrywiol sy'n sail iddynt a sut maent yn berthnasol i'r gwasanaethau sy'n seiliedig ar bobl ac wedyn yn ymdrin â nhw trwy'r cynlluniau gwasanaeth. Yna bydd y pwyllgor yn cael cyfle i ofyn cwestiynau i Benaethiaid Gwasanaethau ac Aelodau'r Cabinet am yr effaith ar eu gwasanaethau penodol a'r hyn y maent yn bwriadu ei wneud yn ystod y cam adfer.
  Yna, dywedwyd wrth yr Aelodau, os bydd rhywbeth yn codi o'r cwestiynau hynny o ran dymuno cael adroddiadau manylach am faterion penodol, p'un a yw'n ymwneud ag ysgolion neu Wasanaethau Cymdeithasol i oedolion, gall y Tîm Craffu roi'r rheini yn y rhaglen waith.

- Awgrymwyd bod y pwyllgor yn gwneud yr hyn a wnaed fel arfer yn y gorffennol, sef rhannu'r adolygiadau perfformiad dros ddau gyfarfod, gydag un cyfarfod yn ystyried gwasanaethau Addysg a'r llall yn ystyried y Gwasanaethau i Oedolion a Phlant. Byddai hyn yn rhoi cyfle i'r pwyllgor archwilio'n fanylach.

- Dywedwyd wrth yr Aelodau bod materion Gwasanaethau Tai a digartrefedd, grantiau busnes newydd a chymorth i bobl ddi-waith yn destun cynllun y Gwasanaeth Buddsoddi a Thai Adfywio a adroddir i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad - Lleoedd a Chorfforaethol. Fodd bynnag, gallai'r pwyllgor ofyn am unrhyw fath o faterion gofal cymdeithasol i oedolion sy'n deillio o bryderon am dai, megis gwasanaethau cymorth i helpu'r rhai sy'n symud i lety, ac os bydd unrhyw faterion yn codi sydd wedi effeithio ar iechyd a gofal cymdeithasol pobl, yna gallai Aelodau ymateb iddynt fel rhan o gylch gwaith y pwyllgor Pobl.

- Gofynnodd yr Aelodau a yw'r pwyllgor yn gallu cael yr wybodaeth ddiweddaraf ar unwaith am barodrwydd cynhwysiant digidol gydag ysgolion i'r rhai nad oes ganddynt fynediad at Wi-Fi, y rhyngrwyd na chyfleusterau cyfrifiadurol. Mae pryder pe bai'n rhaid i ysgol neu ddosbarth fynd i'r cyfyngiadau symud, pa mor barod yw'r Cyngor i alluogi ein plant a'n pobl ifanc i gael mynediad llawn i gyfrifiaduron ac offer.

- Dywedwyd wrth yr Aelodau bod hyn eisoes ar waith yn ystod y pedwar mis yr oedd yr ysgolion ar gau. Yn ôl ym mis Mawrth, roedd Addysg wedi archebu nifer mawr o ddyfeisiau y gellid eu darparu ar gyfer teuluoedd oedd wedi'u hallgáu'n ddigidol yn ystod y cyfnod hwn. Yna, cynghorwyd yr Aelodau y gall y Prif Swyddog Addysg ddarparu rhagor o wybodaeth am hyn pan fydd yn cyflwyno ei chynllun gwasanaeth i'r pwyllgor. Caiff y pwyllgor gyflwyno cwestiwn i'r Prif Swyddog Addysg os hoffai'r Aelodau'n dderbyn gwybodaeth.

- Gofynnwyd am ansawdd aer yn effeithio ar iechyd a lles preswylwyr a pha fesurau sydd ar waith. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod hyn yn dod o dan gylch gwaith y Pwyllgor Lleoedd a Chorfforaethol, ond gall Aelodau gyflwyno Cwestiwn Ar Unrhyw Adeg i Aelodau'r Cabinet i gael gwybod pa fesurau sydd ar waith.
  Yna dywedwyd wrth yr Aelodau bod adroddiad am Deithio Cynaliadwy ac Ansawdd Aer a fydd yn mynd gerbron y Cabinet ar 16 Medi 2020 a fydd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y mesurau sydd wedi'u rhoi ar waith i wella teithio cynaliadwy a fydd yn effeithio ar ansawdd aer.

- Ble byddai'r pwyllgor yn gallu mynd i dderbyn gwybodaeth am wasanaethau Iechyd Meddwl i oedolion a phlant yn ystod y cyfnod clo, yn benodol am sut mae'r pethau wedi bod a sut y byddant yn y camau adfer?

  Dywedwyd wrth yr Aelodau eu bod yn derbyn adroddiad y Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion; gallant ofyn i Bennaeth y Gwasanaeth a'r Aelod Cabinet. Gall Aelodau hefyd ofyn cwestiwn ysgrifenedig os hoffent gael yr wybodaeth yn gynt. Yna, dywedodd aelod o'r pwyllgor fod y Tîm Iechyd Meddwl Oedolion Cymunedol wedi bod yn gweithio'r holl ffordd trwy'r cyfyngiadau symud.

Casgliad

Cytunodd y pwyllgor i dderbyn Blaenraglen Waith Flynyddol 2020-21.

Daeth y cyfarfod i ben am 10:15.

5 **Webcast of Meeting**

Daeth y cyfarfod I ben am 10.50 am